



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Newid dyddiad ar gyfer Rygbi'r Urdd – cofiwch fod cystadleuaeth Rygbi Ceredigion wedi newid i **DDYDD LLUN, Chwefror 27ain**.

Mi fydd y bus yn gadael am 8.30yb ac yn dychwelyd erbyn 3.30yp Mi fydd angen bocs bwyd a dillad addas.

Mi fydd y rhai sy'n cynrychioli'r ysgol yn erbyn Plascrug yn parhau i chwarae ar gae'r ysgol yn ystod y bore. Cofiwch eich citiau ac esgidiau addas. Cofiwch nad oes angen prynu esgidiau newydd yn benodol i'r weithgaredd hon ond mi fydda'n syniad da i ddod a phâr o esgidiau /treinyrs a dillad arall i wisgo ar ôl y gemau.

Dydd Gŵyl Dewi – mae croeso i bawb wisgo gwisg Gymreig neu wisg sy'n cynrychioli Cymru ar ddydd Mercher, Mawrth 1af.

Nofio – mi fydd trefniadau nofio'n parhau pob ddydd lau – (Blwyddyn 4 a 5 ar ddydd lau, Mawrth 2ail)

Clwb yr Urdd – ni fydd Clwb yr Urdd yn ystod yr hanner tymor yma. Mi fydd y clwb yn ail gychwyn yn dilyn gwyliau'r Pasg.

Eisteddfod Offerynnol yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – mae'r ysgol wedi trefnu bus i gludo'r Gerddorfa i'r Eisteddfod Offerynnol yn Theatr Felinfach ar ddydd lau, Mawrth 2ail (y gerddorfa yn perfformio am 9.40). Mi fydd y bus yn gadael yr ysgol yn brydlon am 8.30 ac yn dychwelyd erbyn amser cinio. Mi fydd angen crys chwys coch yr ysgol, esgidiau du, sanau da a throwsus du os gwelwch yn dda. Gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid wneud trefniadau cludiant ar gyfer yr unigolion fydd yn cystadlu, cysylltwch â mi os oes angen unrhyw gymorth gyda hyn. Rhagor o fanylion i ddilyn am amserlen y cystadlu unigol.

Rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd Cylch Aberystwyth – dydd Mercher, Mawrth 8fed yn Ysgol Plascrug ac Ysgol Gymraeg (rhagor o fanylion i ddilyn) Gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid drefnu fod y disgyblion yn cyrraedd y rhagbrofion ar amser.

Eisteddfod yr Urdd Cylch Aberystwyth – cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Fawr ar ddydd lau, Mawrth 9fed – unigolion yn ystod y prynhawn gyda'r grwpiau / corau yn cychwyn am 4 o'r gloch (amserlen i ddilyn).

Arddangosfa Wyddoniaeth a Thechnoleg yn y Brifysgol – mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn cerdded i'r Brifysgol erbyn 9.30 ar ddydd Mawrth, Mawrth 14eg ar gyfer Arddangosfa Wyddoniaeth a Thechnoleg. Mi fydd y disgyblion yn dychwelyd erbyn amser cinio.

Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion – dydd Mawrth, Mawrth 21ain yn Ysgol Bro Teifi (mi fyddwn yn trefnu bus).

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn, Mawrth 25ain.

Nosweithiau i drafod cynnydd addysgol eich plentyn – nos Lun, Mawrth 27ain neu nos Fawrth, Mawrth 28ain (manyion trefnu apwyntiadau i ddilyn).

Gwyliau'r Pasg – Mi fydd yr ysgol yn cau ar ddydd lau, Mawrth 30ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 17eg.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth, 22/02/2023

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Change of date for Urdd Rugby – please remember that the Urdd Rugby has changed to **MONDAY, February 27th**. The bus will depart at 8.30am and return by 3.30pm Pupils will need a lunch box and suitable clothes.

Those representing the school against Plascrug will continue to play on the school field during the morning. Remember your kits and footwear. It is not necessary to buy new boots specifically for this activity, but it would be a good idea to bring a pair of shoes/trainers and other clothes to wear after the games.

St David's Day - everyone is welcome to wear Welsh costume or an outfit that represents Wales on Wednesday, March 1st.

Swimming – swimming arrangements will continue every Thursday – (Year 4 and 5 on Thursday, March 2nd)

Clwb yr Urdd - there will be no Urdd Club during this half term. The club will start again following the Easter holidays.

Ceredigion Urdd Regional Instrumental Eisteddfod - the school has organized a bus to take the Orchestra to the Instrumental Eisteddfod at Theatr Felinfach on Thursday, March 2nd (the orchestra performs at 9.40am). The bus will leave the school promptly at 8.30 and will return by lunchtime. Pupils will need the school's red sweatshirt, black shoes, black socks, and black trousers. Parents / guardians are kindly asked to make transport arrangements for the individuals who will be competing, please contact me if you need any help with this. More details to follow with regarding the timetable for the individual competitions.

Aberystwyth Area Urdd Eisteddfod Prelims – Wednesday, March 8th at Ysgol Plascrug and Ysgol Gymraeg (more details to follow) Parents / guardians are kindly asked to arrange that the pupils arrive at the prelims on time.

Aberystwyth Area Urdd Eisteddfod - the Eisteddfod will be held in the Great Hall on Thursday, March 9th - individuals during the afternoon with the groups / choirs starting at 4 o'clock (timetable to follow).

Science and Technology Exhibition at the University - Year 5 and 6 pupils will be walking to the University by 9.30am on Tuesday, March 14th for the Science and Technology Exhibition. Pupils will return by lunchtime.

Ceredigion Regional Dance Eisteddfod - Tuesday, March 21st at Ysgol Bro Teifi (we will organise a bus).

Ceredigion Regional Urdd Eisteddfod - Ponrhydfendigaid Pavilion on Saturday, March 25th.

Open Evenings to discuss your child's educational progress - Monday evening, March 27th or Tuesday evening, March 28th (details to arrange appointments to follow).

Easter Holidays - The school will close on Thursday, March 30th and re-open on Monday, April 17th.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher 22/02/2023